Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# RHAGLEN RHEOLAETH GYFFREDINOL GIG CYMRU AR GYFER GRADDEDIGION

# PROFFIL LLWYDDIANT

# YNGHYLCH PROFFILIAU LLWYDDIANT




Bydd y Rhaglen Rheolaeth Gyffredinol ar gyfer Graddedigion Cymru Gyfan yn cefnogi'r uchelgais y bydd arweinwyr yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn arddangos arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol erbyn 2030. Bydd y rhaglen yn helpu i greu'r diwylliant arweinyddiaeth sydd ei angen ar ein sefydliadau i ffynnu, yn seiliedig ar y saith ymddygiad sy'n cefnogi ac yn arwain gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac yn cael eu defnyddio fel fframwaith i fod yn sail i'n hasesiad ymddygiadol ar gyfer graddedigion.

Mae Proffiliau Llwyddiant yn rhoi darlun cyfannol o ddarpar ymgeiswyr drwy asesu ymddygiadau, cryfderau a galluoedd. Mae hyn yn ein helpu i ragweld sut gallech berfformio yn y rôl drwy'r gwahanol gamau recriwtio er mwyn cael darlun cywir o'ch addasrwydd ar gyfer y rôl.

Cyn gwneud cais am y rôl, mae'n bwysig eich bod wedi darllen manyleb y swydd a'r person yn drylwyr er mwyn deall y gofynion allweddol, gan fyfyrio ar eich cryfderau personol a'ch ffyrdd o weithio. Er bod profiad gwaith yn ddymunol, nid yw'n hanfodol. Meddyliwch am yr holl weithgareddau rydych chi wedi'u gwneud fel profiad gwaith, gwirfoddoli, prifysgol a hobïau.

# YNGHYLCH PROFFILIAU LLWYDDIANT

| YMDDYGIADAU | CRYFDERAU | GALLU |
|---|---|---|
| Yn dibynnu ar y math o asesiad, er enghraifft, y ffurflen gais neu'r cyfweliad, efallai y gofynnir i chi roi enghreifftiau o adegau pan rydych wedi dangos ymddygiad penodol. Gallai hyn fod yn y gwaith neu mewn cyd-destun arall, fel profiad gwaith, gwaith grŵp yn y brifysgol, gwirfoddoli, neu mewn cysylltiad â hobi.<br><br>Fel arall, efallai y gofynnir i chi sut y byddech yn ymddwyn mewn sefyllfa benodol, er enghraifft, gan ddefnyddio prawf Barnu Sefyllfa. Efallai y gofynnir i chi hefyd ddangos ymddygiad mewn amser real, er enghraifft mewn asesiad strwythuredig o ymddygiad. | Bydd asesu eich cryfderau yn ein helpu i ddeall a ydych chi, y sefydliad a'r swydd yn cyd-fynd yn dda drwy edrych ar yr hyn rydych chi'n mwynhau ei wneud, beth rydych chi'n ei wneud yn dda a pha mor aml. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn debygol o fwynhau'r rôl ac yn perfformio'n dda.<br><br>Mae tair elfen sy'n pennu a yw rhywbeth yn gryfder:<br>• ***Perfformiad:*** *gallwch gyflawni gweithgaredd/ymddygiad i lefel uchel o gymhwysedd neu hyfedredd*<br>• ***Ymgysylltiad:*** *rydych chi'n teimlo'n frwdfrydig, yn llawn cymhelliant ac yn grymus wrth wneud y gweithgaredd*<br>• ***Ymarfer:*** *rydych chi'n gwneud y gweithgaredd yn rheolaidd ac mor aml â phosibl* | Bydd asesu eich gallu yn ein helpu i ddeall sut gallech berfformio yn y dyfodol a'ch addasrwydd i'r math o waith y gallech ei wneud.<br><br>Fel ymgeisydd ar gyfer ein rhaglen graddedigion, efallai bod gennych brofiad gwaith cyfyngedig, ond byddem yn chwilio am enghreifftiau o bethau rydych wedi'u cwblhau, yn cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o GIG Cymru a'r gofynion o weithio yn yr amgylchedd yma. |

*Gall asesiadau gynnwys ffurflen gais, cyfweliad, canolfan asesu, prawf cryfder sefyllfaol, prawf seicometrig, ymarferion grŵp, a dadansoddiad ysgrifenedig neu brofion.*
*Mae GIG Cymru yn ymdrechu i ddarparu gweithle amrywiol a chynhwysol ac rydym am i chi ddangos eich llawn botensial; pa fath bynnag o asesiad sy'n cael ei ddefnyddio. Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch i'n proses recriwtio, rhowch wybod i'r rheolwr recriwtio cyn gynted â phosibl.*

# 1) DYSGU A HUNANYMWYBYDDIAETH

| YMDDYGIADAU | CRYFDERAU | GALLU |
|---|---|---|
| • Dangos tystiolaeth o hunanymwybyddiaeth a'ch cryfderau personol.<br>• Gwneud asesiad cywir a gwrthrychol o'ch perfformiad eich hun.<br>• Agored i gael adborth a gweithredu arno i wella eich perfformiad.<br>• Blaenoriaethu eich datblygiad eich hun, gan gydnabod yr angen am ddysgu parhaus gan weithredu fel model rôl wrth fynd ati i wneud hyn.<br>• Dangos empathi wrth gydnabod emosiynau yn eich hun ac eraill yn gallu rheoli eich ymatebion yn briodol. | **Deallusrwydd Emosiynol**<br>Byddwch yn ennyn dealltwriaeth o'ch emosiynau eich hun ac emosiynau pobl eraill i ddangos empathi.<br><br>**Didwyll**<br>Rydych yn hunanymwybodol ac yn driw i'ch hun ym mhob sefyllfa, hyd yn oed dan bwysau.<br><br>**Dysgwr**<br>Rydych chi'n chwilfrydig, rydych chi'n chwilio am wybodaeth newydd ac yn chwilio am ffyrdd newydd o ddatblygu eich hun ac eraill. | • Yn gallu adnabod a dangos eich sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad i lywio cynllun datblygu sy'n nodi eich awydd diffuant i wella a thyfu'n barhaus.<br>• Yn deall manteision eang rhoi a derbyn adborth a sut mae'n hyrwyddo'ch datblygiad personol a phroffesiynol chi eich hun ac eraill.<br>• Yn credu eich bod yn myfyrio ar eich gwaith eich hun, yn chwilio am gyfleoedd dysgu newydd, gan annog adborth wrth ddiffinio a gweithredu i gau unrhyw fylchau neu anghenion datblygu.<br>• Yn dangos eich bod yn gallu cael dealltwriaeth, yn gallu nodi cryfderau a bylchau mewn sgiliau a gwybodaeth gan gynnwys sut y gallai dysgu o'ch camgymeriadau wella perfformiad yn y dyfodol. |

#Hunanymwybyddiaeth #Gofyn am adborth #Ymwybyddiaeth emosiynol #Datblygu eraill

# 2) CYMHELLIANT A GWYDNWCH

| YMDDYGIADAU | CRYFDERAU | GALLU |
|---|---|---|
| • Yn ddewr wrth wneud penderfyniadau ac yn osgoi dilyn y llwybr hawsaf.<br>• Yn dangos parodrwydd i ymgymryd â chyfrifoldebau a heriau newydd ac yn annog eraill i wneud hynny.<br>• Yn arfer hunanreolaeth, yn dangos agwedd gadarnhaol at broblemau a newid.<br>• Yn defnyddio amrywiaeth o ddysgu, gan weithio gydag eraill i ddod o hyd i atebion ymarferol i heriau.<br>• Yn gallu cadw ffocws yn wyneb newid, ond eto'n hyblyg i gynnwys blaenoriaethau wrth iddynt newid. | **Gwydn**<br>Nid ydych yn cynhyrfu'n hawdd, rydych yn dod dros siom yn gyflym ac yn dysgu ohono, gan ymdrechu i sicrhau canlyniadau o ansawdd a rhagoriaeth ym mhopeth a wnewch.<br><br>**Dewr**<br>Rydych chi'n arloeswr sy'n rhoi cynnig ar ddulliau gweithredu newydd ac yn gwthio eich hun i weithio y tu allan i'ch cylch cysurus.<br><br>**Pendant**<br>Rydych chi'n defnyddio eich crebwyll ac yn pwyso a mesur sefyllfaoedd a thasgau wrth wnud penderfyniadau. | • Yn dangos ffocws ar nodau cyffredinol ac nid tasgau penodol yn unig i gyflawni blaenoriaethau, gan gyflwyno ymddygiad cadarnhaol sy'n galluogi dod o hyd i atebion.<br>• Yn deall sut i gadw ffocws drwy bennu pwy, a'r hyn sy'n ofynnol, gosod nodau clir tra'n asesu cynnydd yn barhaus.<br>• Yn dangos y gallu i ymdopi â newid, yn gallu cymryd cam yn ôl a myfyrio ar effeithiau posibl.<br>• Yn cymryd perchnogaeth o faterion a phroblemau er mwyn sicrhau canlyniad er gwaethaf anawsterau a / neu'n gallu gweld pryd mae angen uwchgyfeirio problemau.<br>• Yn dangos hyder ac yn ddewr wrth wneud penderfyniadau anodd hyd yn oed os ydynt yn amhoblogaidd. |

# Trefn #Ffocws #Gwydnwch #Hyblygrwydd #Pwyll

# 3) HYRWYDDO ARLOESEDD A CHYNALIADWYEDD

| YMDDYGIADAU | CRYFDERAU | GALLU |
|---|---|---|
| • Yn agored i syniadau a chysyniadau, dulliau a thechnolegau newydd; yn gweld y cyfleoedd.<br>• Yn mynd ati i herio dulliau presennol a doethineb confensiynol, gan annog ffyrdd newydd o weithio.<br>• Yn hyrwyddo newidiadau a gwelliannau perthnasol, rhesymegol a seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Yn dangos ystwythder meddyliol a hyblygrwydd wrth addasu i amgylchiadau newydd yn gyflym ac yn hyderus. Yn mwynhau rhoi cynnig ar fentrau newydd.<br>• Yn gwneud newidiadau priodol i gyflawni'r canlyniadau gofynnol gyda'r adnoddau sydd ar gael. | **Gwella**<br>Rydych chi'n chwilio am ffyrdd gwell o wneud pethau ac yn mwynhau meddwl am syniadau newydd a gwreiddiol. Yn mabwysiadu dull cadarnhaol o fynd i'r afael â phroblemau a dod o hyd i ffyrdd o ganfod atebion addas.<br><br>**Herio**<br>Gallwch ddod â safbwynt newydd beth bynnag fo'r sefyllfa neu'r cyd-destun. Rydych chi'n gweld barn pobl eraill ac yn gallu gwerthfawrogi bod llawer o wahanol agweddau i'w hystyried.<br><br>**Addasu**<br>Gallwch addasu i amrywiadau mewn gwaith neu amgylcheddau ac nid yw newid yn effeithio ar eich effeithiolrwydd. Rydych chi'n hyblyg ac yn amryddawn ac yn gweithredu fel eiriolwr dros newid. | • Yn dangos dull cadarnhaol ac agored o ddeall newidiadau posibl, gan greu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu rhannu syniadau a chysyniadau newydd yn ddiogel er mwyn sicrhau newid sy'n gwella.<br>• Yn dangos awydd a safbwynt newydd i ganfod atebion drwy fod yn hyblyg, gan weithredu fel model rôl cadarnhaol i annog pobl i fabwysiadu ac addasu i newidiadau.<br>• Yn gallu herio ffyrdd presennol o wneud pethau'n adeiladol, gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol, resymegol a seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu syniadau ar gyfer gwella.<br>• Yn deall sut mae argymhellion ar gyfer ffyrdd newydd ac arloesol o wneud pethau yn cael effaith gadarnhaol ar wella gwasanaethau. |

# Arloesol #Cadarnhaol #Heriwr #Agored #Diwygiwr

# 4) ADEILADU CYDWEITHIO A PHARTNERIAETH

| YMDDYGIADAU | CRYFDERAU | GALLU |
|---|---|---|
| • Yn cyfathrebu'n agored, gan ddangos parodrwydd i rannu gwybodaeth, sydd yn ei dro yn meithrin hygrededd.<br>• Yn cychwyn cysylltiadau a pherthnasoedd, gan ddangos brwdfrydedd i gydweithio a chyfrannu gydag eraill.<br>• Yn croesawu amrywiaeth a chynwysoldeb, gan barchu gwahaniaethau, annog cyfraniad gan eraill a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.<br>• Yn rhwydweithio i adeiladu a meithrin cynghreiriau a phartneriaethau newydd, gan gydnabod y gwahanol agendâu ac annog ffyrdd newydd o feddwl a gweithio.<br>• Yn hynaws gan feithrin ymddiriedaeth a hyder wrth ddeall problemau pobl eraill gan gydweithio i ganfod ateb i bawb. | **Meithrin Perthnasoedd**<br>Byddwch yn mynd ati'n rhagweithiol i greu a chynnal perthynas waith gadarnhaol a phroffesiynol gydag ystod eang o randdeiliaid, gan nodi cysylltiadau a dod â phobl at ei gilydd i ddatblygu parch ac ymddiriedaeth rhwng pawb.<br><br>**Cynhwysol**<br>Rydych chi'n gweld pawb fel unigolyn, ac yn derbyn pobl am bwy ydynt ac yn trin pawb yn deg. Yn annog a darparu cyfleoedd i eraill rannu syniadau a chyfrannu.<br><br>**Cyfryngwr**<br>Rydych chi'n darparu sefydlogrwydd a chydlyniant o fewn timau, gan ddod o hyd i dir a phwrpas cyffredin drwy annog deialogau o fewn a rhwng timau. Rydych chi'n mwynhau cydweithio ag eraill i gyflawni nod cyffredin. | • Yn deall pwysigrwydd gallu adnabod rhanddeiliaid, cydweithio ac ymgynghori â nhw, dangos diddordeb gwirioneddol wrth wrando, gwerthfawrogi syniadau, safbwyntiau a ffyrdd gwahanol o weithio.<br>• Mae'n dangos ei bod yn bwysig cyfathrebu'n glir ac yn gryno mewn modd parchus tra'n gosod diben clir gan ystyried ystod amrywiol o fuddiannau.<br>• Yn cynnig cymorth, cyfryngu a mewnbwn i helpu i ddatblygu syniadau ac atebion sy'n helpu gyda chydweithredu a gweithio rhwng ystod eang o randdeiliaid ac sy'n rheoli gwrthdaro'n effeithiol.<br>• Yn cydnabod yr angen i fod yn gynhwysol ac yn deg, yn gallu addasu eich dull a'ch arddull eich hun i annog cyfraniadau a meithrin perthnasoedd.<br>• Yn credu bod ymgysylltu proffesiynol a chadarnhaol yn helpu i nodi cyfleoedd i gydweithio gan gynnwys rhannu gwybodaeth a dysgu. |

#Cydweithio #Meithrin #Proffesiynol #Cynhwysol #Cytbwys

# 5) DYLANWADU AC EFFAITH BERSONOL

<table>
<tr><th>YMDDYGIADAU</th><th>CRYFDERAU</th><th>GALLU</th></tr>
<tr>
<td>
<ul>
<li>Yn cyfathrebu'n rhagweithiol ac yn gadarnhaol â phobl mewn ffordd y gallant ei deall ac uniaethu â hi; yn defnyddio sianeli priodol ac yn defnyddio technoleg yn effeithiol.</li>
<li>Yn gwrando ar eraill i ddeall pryderon ac yn dangos empathi tuag atynt, gan ddangos gwerthfawrogiad o'r gwahaniaethau a all fodoli mewn gwerthoedd personol a sefydliadol.</li>
<li>Yn llwyddo i greu argraff ar eraill a sicrhau eu hymrwymiad.</li>
<li>Yn deall sut mae eraill yn eich gweld a ble a pham y gallai eraill deimlo eu bod yn cael eu herio gennych.</li>
<li>Yn dangos cymysgedd effeithiol o sensitifrwydd a phenderfyniad wrth negodi, yn gweithio i ddatrys gwrthdaro pe bai’n codi.</li>
</ul>
</td>
<td>
Dylanwadu<br>
Rydych chi'n dylanwadu ar eraill, yn cyfleu'r rhesymeg i sicrhau cydsyniad drwy gyfleu meddyliau a syniadau, ar lafar neu'n ysgrifenedig. Rydych chi'n symleiddio cymhlethdod ac yn addasu'r cyfathrebu fel y gall eraill ei ddeall.<br><br>
Negodi<br>
Rydych yn hwyluso trafodaethau adeiladol ac yn mwynhau sicrhau bod pob parti yn gytûn.<br><br>
Ysgogi<br>
Rydych chi'n uchelgeisiol iawn ac yn ysbrydoli eraill i symud pethau ymlaen a gwneud i bethau ddigwydd.
</td>
<td>
<ul>
<li>Yn dangos y gallu i gyfathrebu mewn modd clir, adeiladol, ystyriol a diddorol, gan fod yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig ynghylch y gwaith sy'n annog eraill i wneud yr un fath.</li>
<li>Yn gallu adnabod eich emosiynau eich hun a rhai pobl eraill, yn gallu nodi gwahanol grwpiau rhanddeiliaid ac addasu iddynt, gan arwain meddylfryd ac ymddygiad, a chymryd yr amser i ystyried y dulliau gorau o gyfathrebu.</li>
<li>Yn dangos y gallu i wahodd her a chynnwys pobl eraill yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn helpu i feithrin ymgysylltiad ac ymddiriedaeth, gan gyflwyno argymhellion cadarn, a negodi i ddod i gytundebau sy’n addas ar gyfer pob parti.</li>
<li>Yn grymuso unigolion i wneud yr hyn sydd orau yn eu barn nhw tra'n cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a gweithredoedd y tim.</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

#Cyfathrebu #Dylanwadu #Adeiladol #Negodi #Craff

# 6) ARWEINYDDIAETH GYFUNOL A THOSTURIOL

| YMDDYGIADAU | CRYFDERAU | GALLU |
|---|---|---|
| • Yn creu amgylchedd gwaith cadarnhaol gan ddangos ymddiriedaeth a grymuso eraill i weithredu o'u pen a'u pastwn eu hunain ac ysgwyddo cyfrifoldeb.<br>• Yn ceisio deall cymhellion pobl eraill, gan neilltuo amser i gefnogi a hyfforddi eraill, rhoi adborth clir a gonest, gwybod pryd i gefnogi a phryd i gamu'n ôl.<br>• Yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael yn brydlon, yn gadarn ac yn adeiladol, gan drin camgymeriadau fel cyfleoedd dysgu.<br>• Yn dathlu llwyddiant ac yn creu disgwyliadau cadarnhaol o'r hyn y gall unigolion a grwpiau ei gyflawni – yn gwella hunangred a moral pobl eraill. | **Galluogi**<br>Rydych chi'n gweld potensial pawb ac yn eu hannog i ddysgu, tyfu a datblygu.<br><br>**Gwaith tîm**<br>Rydych chi'n gweithio'n dda fel rhan o dîm a gallwch reoli deinameg tîm yn effeithiol er mwyn cyflanwi nod cyffredin. Rydych chi'n ystyried anghenion unigol pawb ac yn creu ysbryd tîm go iawn.<br><br>**Model Rôl**<br>Rydych chi'n gosod esiampl gadarnhaol, gan ymgorffori gwerthoedd GIG Cymru drwy fod yn dosturiol drwy drafodaethau didwyll a chynhwysol, gan werthfawrogi safbwynt pawb er mwyn deall cyn ymateb neu wneud penderfyniadau. | • Yn dangos gwybodaeth eang am wahanol arddulliau arwain gan ddeall eu perthynas â chynyddu grymusedd ac ymddiriedaeth.<br>• Yn deall sut y gall gweithio mewn tîm greu amgylchedd gwaith cadarnhaol, cefnogi cyd-gynhyrchu, annog newid a hybu cydweithredu â thimau a rhyngddynt er mwyn sicrhau canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd.<br>• Yn dangos gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o werthoedd sefydliadol, gan geisio bod yn fodel rôl i eraill a gallu mynegi cysylltiadau ag ymddygiadau personol.<br>• Yn ceisio deall cymhellion pobl eraill, gan helpu i gefnogi a llywio'r broses o wneud penderfyniadau i annog gallu tîm ac nid gallu unigol yn unig i wireddu'r datblygiad a'r cynnydd posibl mewn pobl/timau. |

#Tosturiol #Gwerthoedd yn eich gyrru #Grymuso #Cydgynhyrchu #Model rôl

# 7) CYFEIRIADEDD STRATEGOL

| YMDDYGIADAU | CRYFDERAU | GALLU |
|---|---|---|
| • Yn meddwl yn strategol ac yn mabwysiadu safbwyntiau eang.<br>• Yn defnyddio gallu dadansoddol cryf i ystyried a gwerthuso effeithiau posibl ffactorau amrywiol e.e. cymdeithasol, amgylcheddol, gwleidyddol ac economaidd.<br>• Yn sganio'r gorwel am ddatblygiadau e.e. mewn technoleg, gwyddoniaeth ac ymchwil a allai arwain at oblygiadau ac effaith ar wasanaethau.<br>• Yn creu gweledigaeth gadarnhaol gydag eraill ac yn ei throsi yn gamau a nodau ymarferol.<br>• Yn ymgorffori amgylchiadau sy'n newid o fewn y weledigaeth mewn ffordd gytbwys, heb fod yn rhy anhyblyg nac yn rhy hyblyg nes colli'ch ffordd chwaith. | **Gweledigaeth**<br>Rydych chi'n creu ac yn rhannu gweledigaeth glir o'r dyfodol ac yn gallu ei chyfleu'n glir ac yn gryno i ystod eang o randdeiliaid.<br><br>**Strategol**<br>Rydych chi'n edrych ar y darlun mawr ac yn ystyried ffactorau ehangach a goblygiadau hirdymor penderfyniadau.<br><br>**Dadansoddol**<br>Rydych chi'n ceisio ac yn dadansoddi gwybodaeth i lywio penderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. | • Yn dangos dealltwriaeth eang o sut y gall strategaethau greu gwerth a sut y gall hyn gefnogi ac effeithio ar amcanion ehangach. Yn dangos bod gennych ddealltwriaeth eang o wasanaethau cyhoeddus, eich bod yn awyddus i wybod mwy a chael y wybodaeth ddiweddaraf a bod yn effro i faterion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar eich gwaith.<br>• Yn dangos diddordeb brwd mewn chwilio am brofiadau a'u rhannu i ddatblygu gwybodaeth mewn meysydd sy'n gysylltiedig â'ch Gwaith.<br>• Yn dangos ymwybyddiaeth o bwysau allanol, ac unrhyw risgiau perthnasol, gan eu rheoli'n briodol wrth wneud penderfyniadau.<br>• Yn dangos brwdfrydedd ynghylch nodau strategol, gan fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol atynt i gyd. |

#Ymchwiliwr #Dadansoddwr #Crëwr #Cynlluniwr #Arloeswr